

Sut i Gyflwyno eich Gwaith

- Uwchlwythwch eich aseiniadau fel dogfen Word (hynny yw, ffeil sy'n gorffen efo (".doc"/".docx"), neu fel Pdf (ffeil yn gorffen efo ".pdf").
- Defnyddiwch unrhyw ffont sy'n synhwyrol, yn ffurfiol, ac yn ddarllenadwy. Y dewis amlwg yw 'Times New Roman', maint 12.
- Rhaid cynnwys eich enw, rhif myfyriwr, rhif yr aseiniad a'r cwestiwn fel teitl, eich cyfanswm geiriau, ac unrhyw beth ychwanegol mae'r cwestiwn yn galw amdano.
- Nid oes rhaid llenwi tudalen blaen ("cover sheet") ffurfiol.
- Gwnewch yn sicr bod eich cyfanswm geiriau yn gywir cyn cyflwyno. Cofiwch: rydym yn dechrau tynnu marciau'n awtomatig os mae'r gwaith yn mynd dros 10% yn rhy hir.
- **NID YW'R** cyfanswm geiriau yn cynnwys troednodiadau a llyfryddiaeth, ond mae dyfyniadau **YN CYFRI** tuag at y cyfanswm.
- Ceir hawl i uwchlwytho eich gwaith unwaith yn unig ar y ddolen Turnitin, ond fe allwch e-bostio 'r gwaith i'ch tiwtor hefyd i sicrhau bod popeth wedi cyrraedd.
- Os sylwch broblem ddifrifol efo'ch gwaith ar ôl uwchlwytho ond cyn y dyddiad cau, e-bostiwch eich gwaith diwygiedig at eich tiwtor. Os mae'r broblem yn ddilys, mae'r tiwtor yn medru uwchlwytho'r drafft newydd.
- Cofiwch gyflwyno gydag amser ar ôl cyn y terfyn swyddogol — mae cymorth technegol ar gael yn ystod oriau gwaith yn unig.
- POB LWC!